# Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg

Byddaf yn trafod ac yn myfyrio gwers iaith yn ystod fy lleoliad cyntaf oherwydd nid oes gennyf fideo wedi'i recordio, felly bydd hyn yn adlewyrchiad o fy ngwers a'm profiad o fod yn athrawes dan hyfforddiant. Roedd y wers ar gyfer dosbarth cymysg o 30 ddisgyblion yn flwyddyn 5 a 6 sydd ag amrywiaeth eang o alluoedd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn tref yn Abertawe ac mae ganddi tua 600 o ddisgyblion (Estyn, 2017). Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol, ond ychydig o ddisgyblion ddaw o gartrefi sydd yn siaradwyr Cymraeg. Felly, mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd o addysgu gyda brwdfrydedd mawr (gwelir atodiad 9) i sicrhau'r ymgysylltiad gorau posibl a fydd yn annog eraill i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus (Donaldson, 2015). Mae’r profiad o ddysgu yn gwella’n sylweddol os mae’r awyrgylch y dosbarth yn gefnogol a chydweithredol (Khaliaqdam, 2014).

Yn ystod fy nghyfnod yn y coleg, rwyf wedi bod yn ffodus iawn i gymryd rhan yn sesiynau ‘Gloywi Iaith’. Mae'r gwersi Cymraeg wedi helpu cynyddu fy hyder a dealltwriaeth ymhellach, sydd o ganlyniad wedi sicrhau fy mod yn addysgu ac yn gallu darparu adborth wrth farcio gwaith disgyblion yn briodol (gweler atodiad 2, 3, 7, 8 a 10). Y prif bwyntiau cadarnhaol rydw i wedi'u cymryd o'r gwersi hyn yw'r gwahanol reolau gramadeg fel arddodiad ar ôl berfau ac i gael y profiad o gwblhau’r taflenni gwaith (gwelir atodiad 21, 22 a 23). Yna penderfynais barhau â fy nysgu a datblygu trwy geisio ennill cymhwyster pellach trwy wneud y gwaith sy'n gysylltiedig â'r ‘Dystysgrif Sgiliau Iaith’ (gwelir atodiad 24 a 25). Rwyf wedi cwblhau'r cyflwyniad llafar ac yn gobeithio cael cyfle i sefyll yr arholiad pan fo hynny'n bosibl. Ar ben hynny, rwy'n ymwybodol bod y Gymraeg yn gymhleth a byddaf yn parhau gyda'm twf a datblygiad personol fy hun, gan fod hyn yn sicrhau fy mod i'n barod i addysgu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus (Donaldson, 2015).

Defnyddiais y model myfyrio gan Gibbs (1988), i fyfyrio a dadansoddi'r wers (gwelir atodiad 1). Mae’r model yn cynnwys gwahanol gamau sy’n caniatáu'r unigolyn i feddwl yn gritigol o’r profiad ac i gyrraedd casgliad ar sut i gymhwyso pethau mewn ffordd wahanol yn y dyfodol (The University of Edinburgh, 2019). Roedd y wers hon yn gysylltiedig ag ysgrifennu erthygl papur newydd, lle cafodd y disgyblion ddwy wers flaenorol i adeiladu at y dasg olaf hon. Defnyddiwyd y wers gyntaf fel cyflwyniad i

erthyglau papur newydd a'r strwythur ac ati (gwelir atodiad 6, 10, 11 a 15). Roedd yr ail wers ar sut i greu teitlau effeithiol a buom yn trafod gwahanol ddelweddau fel grŵp (ar lafar), wedi'i ddilyn gan dasg darllen a deall (gwelir atodiad 12, 17 a 18). Yna'r wers olaf, sef yr un byddaf yn myfyrio, yw'r wers y bu'n rhaid i'r disgyblion ysgrifennu ei herthygl ei hun ar Blant Mewn Angen (gwelir atodiad 13, 14, 19 a 20).

Roeddwn i eisiau i'r dasg hon fod yn seiliedig â'r elfen llythrennedd o ysgrifennu, gan fod y ddwy wers flaenorol wedi bod mewn perthynas â darllen a siarad. Cafodd y disgyblion gyfle i drafod syniadau ar ddechrau'r wers (gweler yr atodiad 14) ac fel grŵp fe wnaethon ni gasglu'r ffeithiau allweddol fel pryd, beth, pwy a'r eirfa benodol y dylid ei chynnwys. Gan mai hon oedd y dasg ysgrifenedig gyntaf (yn Gymraeg) i mi ei phrofi ac addysgu gyda'r dosbarth hwn, rwy'n cofio teimlo'n bryderus ac yn poeni y bydd y disgyblion yn cael trafferth i gwblhau'r dasg. Fodd bynnag, ar y cyfan credaf aeth y wers yn dda a gwnaeth y disgyblion eu gorau i ysgrifennu erthygl ddiddorol. Credaf hefyd fod y wybodaeth flaenorol ar y pwnc wedi helpu'r disgyblion i ddatblygu gwell dealltwriaeth o greu erthygl papur newydd.

Roedd nifer o agweddau da o'r wers y credaf eu bod yn llwyddiannus megis gweithio fel grŵp i gasglu gwybodaeth ac i drafod syniadau ar lafar. Fodd bynnag, yn y dyfodol pe bawn i'n gwneud y wers hon eto yna byddwn i'n newid cwpl o bethau fel y rhestr wirio (gwelir atodiad 16). Roedd gan y disgyblion restr wirio, ond ers y dasg hon es ymlaen i ddefnyddio templed gwahanol ar gyfer meini prawf llwyddiant (gweler atodiad 5), sef yn fformat tebyg yr hoffwn pe bawn i wedi defnyddio ar gyfer y dasg hon. Roeddwn i wedi'i chreu 'restr wirio' ar gyfer y dasg, fodd bynnag, dim ond yr unigolyn oedd angen ei dicio. Felly, ers defnyddio'r templed gwahanol, darganfyddai fod y disgyblion yn ymateb yn well pan fydd yn rhaid i rywun arall dicio ac edrych ar waith eu cyfoedion. Hefyd, roeddwn i'n gallu rhoi adborth i'w gwaith ac yna byddai'r disgyblion yn ymateb i hynny. Felly, credaf fod cael y math hwn o feini prawf llwyddiant gyda marcio cyfoedion, yn gwella ansawdd gwaith yr unigolyn a hefyd yn annog cefnogaeth wrth ddarparu unrhyw adborth.

Yn y dyfodol, i'r grŵp gallu isel, byddwn yn rhoi strwythurau brawddegau gwirioneddol iddynt oherwydd trwy edrych ar y gwaith rwy'n gallu gweld bod strwythur brawddegau yn rhywbeth y gallai rhai o'r disgyblion gweld yn anodd. Cyflwynodd llawer o

gamgymeriadau sillafu sylfaenol fel 'roedd', a fyddai eto'n ddechreuadau brawddeg sylfaenol. Fe wnes i daflen fat geiriau ar gyfer y grŵp gallu is (gwelir atodiad 19) ond wrth fyfyrio, bydd rhestr o wahanol strwythurau brawddegau a chysylltiadau wedi bod yn fwy buddiol tuag at ansawdd eu brawddegau. Yn ystod fy nghyflwyniad buom yn trafod gwahanol eirfa ac elfennau allweddol, fodd bynnag, trwy fyfyrio, gallaf weld y dylem fod wedi ailadrodd treigladau gwahanol megis treiglad trwynol. Hefyd, gallwn fod wedi cyflwyno treigladau i'r dasg gyntaf, sef edrych ar y gwahanol erthyglau (gweler atodiad 15), gyda'r disgyblion yn gorfod chwilio am wahanol dreigladau a'u hatgoffa'n barod ar gyfer y dasg ysgrifenedig derfynol.

Wrth edrych ar y ‘Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg’ gan Lywodraeth Cymru (2016), roeddwn i'n gallu deall lefel y gwaith a gyflwynwyd gan y dosbarth. Yn gyntaf, mae'r adran ysgrifennu, sef y dasg hon, yn archwilio'r syniad o ailddrafftio i wella’u gwaith ysgrifennu, sy'n rhywbeth y byddwn yn sicrhau y byddaf yn ei wneud yn y dyfodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu teipio'n gyflymach nag y gallant ysgrifennu gyda beiro, felly byddwn yn gofyn iddynt deipio eu drafft cyntaf allan. Ar ôl iddynt deipio'r drafft, gallwn wedyn ei ddarllen a gweld a oes unrhyw gamgymeriadau ac i gywiro unrhyw beth yn hawdd. Yna byddai'r disgyblion yn gallu argraffu eu gwaith ac yna ysgrifennu’r erthygl yn eu llyfrau. Byddwn yn dal i ofyn iddynt ysgrifennu'r ail ddrafft gyda beiro, gan fod angen ymarfer y sgil sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu yn effeithlon. Mae hefyd yn nodi y dylai'r disgyblion prawf ddarllen eu gwaith a hefyd waith eraill i'w wneud argymhellion ar gyfer gwella. Gan mai dosbarth blwyddyn 5 a 6 yw hwn, roedd hyn yn golygu bod ystod eang o alluoedd yn y dosbarth. Yn y rhaglen mae'n nodi y dylai'r disgyblion allu ym mlwyddyn 4 defnyddio treigladau mwyaf cyffredin yn gywir a hefyd yn gallu defnyddio cysyllteiriau i ddangos cysylltiadau o fewn brawddegau. Felly, mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd y dylwn fod wedi mynd dros y treigladau gyda nhw i sicrhau eu bod yn gallu gwneud hyn yn gywir.

Nid oedd rhai disgyblion yn deall y gwahaniaeth rhwng ffeithiau a barn ac wedi defnyddio eu barn eu hunain yn yr erthygl. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy dasg flaenorol, fe wnaethant ddangos dealltwriaeth o’r prif syniadau mewn testunau gwahanol, sy'n briodol i ddisgyblion ym mlwyddyn 6. Yn y cyflwyniad roeddent yn gallu ymateb i eraill gyda chwestiynau a hefyd yn gallu esbonio gwybodaeth a syniadau. Felly, trwy edrych ar y rhaglen hon, rwy'n gallu myfyrio a sylweddoli bod gan y

disgyblion sgiliau darllen a gwrando da ond bod angen gwella’r elfen ysgrifennu (Llywodraeth Cymru, 2016).

Dysgodd y profiad o fyfyrio lawer imi, ac yn bennaf i sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu. Trwy ddefnyddio'r model myfyrio gan Gibbs (1988), sicrhaodd fy mod wedi mynd i'r afael â phob cam a'i brosesu, ac wrth fyfyrio mae hyn wedi helpu fy natblygiad proffesiynol. Rwy'n gwybod y byddai'r mat geiriau wedi bod yn fwy effeithiol pe bawn i wedi rhoi rhywbeth iddyn nhw sy'n eu hatgoffa o reolau gramadeg fel atalnodi a threigladau. Rwyf hefyd yn cydnabod y dylai'r disgyblion fod wedi cael cyfle i ysgrifennu ail ddrafft ar ôl marcio gwaith ei gilydd a darparu adborth. Ymhellach, yr wyf yn awyddus iawn i barhau gyda fy natblygiad personol o'r Gymraeg, gan y bydd hyn yn sicrhau fy mod i'n haddysgu ar y lefel uchaf bosibl, sydd o ganlyniad yn darparu gwell cyfleoedd i'r disgyblion. Yna bydd y disgyblion yn teimlo'n hyderus ac yn alluog yn yr iaith Gymraeg, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu dyfodol (Donaldson, 2015).

Rhestr gyfeirio:

Donaldson (2015). Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o’r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru: Llywodraeth Cymru.

Estyn (2017). *Adroddiad ar* [redacted]. Ar gael: https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-[redacted]/UploadedDocument/1bb6d9db898d485c8a78e507226d50ef/adroddiad-estyn_ygg-pontybrenin-2017-cym.pdf. Cyrchwyd diwethaf 1af o Fai 2020.

Gibbs, G (1988*). Learnig by Doing: A Guide to Teaching and Learning Methods*. Llundain: Further Education Unit at Oxford Polytechnic.

Khaliliaqdam, S (2014). ZPD, Scaffolding and Basic Speech Development in EFL Context. *Procedia - Social and Behavioral Sciences*, 98.

Llywodraeth Cymru (2016). *Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg Cyfnodau Allweddol 2–4.* Ar gael: https://hwb.gov.wales/storage/5982ca20-088a-4035-8dad-57c179b3b058/cymraeg-rhaglen-astudio-cyfnodau-allweddol-2-4.pdf. Cyrchwyd diwethaf 1af o Fai 2020.

The University of Edinburgh (2019). *Gibbs' reflective cycle.* Ar gael: https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle. Cyrchwyd diwethaf 24ain o Hydref 2020.

Atodiadau:

1. Cylch myfyriol Gibbs (1988).



Atodiad 2: Enghraifft o waith disgybl (grŵp gallu uwch).


Dydd Llun, 18fed o Dachwedd, 2019
Erthygl Papur Newydd
Newyddion [redacted]
15fed o Dachwedd, 2019
£1.00
PLANT MEWN ANGEN
Punt i Pawb
Pudsey
Ar y 15fed o Dachwedd, 2019 roedd plant a staff [redacted] yn codi arian am plant mewn angen. Roedd nhw wedi codi arian ... yn ein ysgol ni ([illegible]). Roedd plant a staff wedi gwneud gwallt gwirion. Rhoddodd pawb £1 i fewn i'r pot.
Oherwydd (~~ti'n gallu helpu~~) Mae'r arian yn mynd yn helpu'r plant yn fawr iawn. Mae plant mewn angen wedi codi £47.9 miliwn y flwyddyn yma. eleni
Ti'n gallu codi arian gan gwneud llawer o pethau fel coginio cacennau, gwerthu dillad, gwerthu eich teganau chi ddim moen, a chi'n gallu gwneud llawer mwy.
~~Rwy'n credu bod~~ Mae plant mewn angen yn pwysig iawn.
Dim angen barn!
Diweddodd Mae Roedd hwna yn llawer o hwyl.
Gan [redacted]

Atodiad 3: Enghraifft o waith disgybl (grŵp gallu canolig).



Atodiad 4: Enghraifft o waith disgybl (grŵp gallu gwaelod).



Atodiad 5: Meini prawf llwyddiant.



| Meini Prawf Llwyddiant | Hunan asesu | Asesu cyfoedion | Asesiad Athro |
|---|---|---|---|
| Teitl | ✓ | ✓ | ✓ |
| Is-deitlau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pwy? Beth? Ble? Pryd? Pam? Sut? | ✓ | | ✓ |
| Paragraffau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Iaith ffurfiol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Diagramau / siartiau / lluniau priodol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amser presennol e.e. Mae ... yn ... | ✓ | ✓ | ✓ |
| Disgrifiadau manwl / ansoddeiriau addas | ✓ | ✓ | ✓ |
| Geirfa bynciol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ffeithiau ac enghreifftiau | ✓ | ✓ | ✓ |

Sylwadau a sut i wella

Defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir.

e.e. - i gynn…

a chan…

1 Cofio [illegible] prif [illegible].

2 mwy o luniau.

3 Cofio [illegible]

*Wyt ti'n gallu hunan asesu dy waith? J.L

Atodiad 6- esiampl o waith o’r grŵp gallu gwaelod.



Atodiad 7- sylwadau fy mentor (dosbarth Derbyn) o fewn fy nydd lyfr am fodelu geirfa newydd ac yn gwirio iaith disgyblion.



20-1-20 - Y Corff

* Cyflwyniad hyfryd fel arfer.
* Paratoi trylwyr ar gyfer y dasg ffocws - syniad hyfryd o ddefnyddio'r ipads trwy'r wers thema, & gwahaniaethu.
* modelu geirfa newydd 'Y Corff'
  - yn awyddus iawn i wirio iaith/geirfa ym gwersi - arfer dda iawn.
* Defnydd da o Mrs Evans â'r dasg tu allan - rwyt yn esbonio'r dasg yn glir bob amser - pwysig er mwyn sicrhau dealltwriaeth

Atodiad 8- sylwadau fy mentor (blwyddyn 5 a 6) o fewn fy nydd lyfr am dreiglo ar ôl 'yn'.



- Defnydd da o ofod dysgu'r dosbarth – cerddaist o gwmpas y dosbarth i gyd. Gwnaeth hyn sicrhau fod neb yn gallu 'cuddio' wrthyt ti fel petai.
- Defnydd da o 3, 2, 1. Plant yn ymateb yn dda i hyn.
- Syniad hyfryd o gael plentyn i ddarllen allan yn uchel.
- Da iawn am esbonio 'treiglo' ar ôl 'yn' – mynd yn dyfnach i mewn i'r iaith (addas iawn ar gyfer B6).

Atodiad 9: sylwadau sy'n adlewyrchu fy mhersonoliaeth.

- Roeddet ti'n llawn brwdfrydedd, yn mynnu sylw'r plant ac yn glir trwy gydol.

- Mae gen ti egni arbennig o flaen y dosbarth - rwyt wedi datblygu hyder yn glir yn barod!

Bloc 2 - Derbyn.

9.1.20 - Mathemateg - oer a phoeth

- Cyflwyniad hyfryd - rhyngweithiol, plant yn awyddus i gymryd rhan.
- Disgwyliadau uchel - sicrhau bod pob disgybl yn gwrando.
- Esbonio'n drylwyr a gan ddefnyddio iaith addas ar gyfer lefel y disgyblion.
- Rhoi cyfle i'r plant ofyn cwestiynau - da iawn.
- Hoff iawn o'r gân wrth fynd o gwmpas y cylch.
- Arwain da / ~~effeithiol~~ o'r dasg ffocws ynghyd â chynorthwyo'r grŵp annibynnol, sy'n medru bod yn her!

Trefnus iawn - wedi paratoi a chasglu'r holl adnoddau oedd angen arnat yn annibynnol.

Y'r holl grwpiau priodol ar dasg (g. ffocws, g. annibynnol a g. ffocws 2.)

Mae gennyt ffordd hyfryd gyda'r plant, rwyt yn datblygu perthnasau da iawn â'r disgyblion ac yn

Atodiad 10: adnoddau Cymraeg.

- Rwyt ti wastad yn asesu dealltwriaeth y plant trwy gydol - "pawb yn deall?" ✓✓.
- Adnoddau hyfryd! Rwyt wedi gwneud cymaint o ymdrech i ddod o hyd i adnoddau Cymraeg - mae hynny <u>mor</u> fab!!
- Rwyt yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y dosbarth - tacluso, cadeiriau o dan y bwrdd - trwy hyn mae'r plant yn dilyn dy esiampl.

Atodiad 11: adborth o'r wers gyntaf.



11.11.19

Erthygl Papur Newydd

(?) Beth am amseru'r plant yn copïo mewn y dyddiad/teitl neu gwobrwyo'r rhai sy'n gorffen gyda Dojos?

- Cyfarwyddiadau clir a syml.
- Da iawn am ailadrodd 'ydyn ni'n barod i ddechrau?' - gorfodi'r plant i gymryd rhan weithredol yn y wers.
- Da iawn am ofyn i'r plant oedd yn 'ffysian' i stopio.
- Ailgapio ar wersi Saesneg w/diwethaf - plant yn dangos dealltwriaeth gychwynnol arbennig.
- Mae gen ti egni arbennig o flaen y dosbarth - rwyt wedi datblygu hyder yn glir yn barod!
- Da iawn am ddewis rhywun i ateb o'r grwpiau oedd yn rhy tawel. Y ffordd hyn, mae'r plant i gyd yn gorfod talu sylw.
- AaGD - dim dwylo i fyny, dewis plant penodol i ateb.

Atodiad 12: Adborth o'r ail wers.

12.11.19

Erthygl Papur Newydd

Gwers 2

- Da iawn am osod yr adnoddau allan ar y byrddau'n barod. Roedd y plant yn gwybod yn syth beth oedd angen gwneud.
- Cloc cyffri lawr ar y bwrdd gwyn wedi helpu.
- ~~Pa~~ Gan mai tasg gorffen gwaith ddoe oedd hwn, paid a phoeni am esbonio'r ail tasg nes i'r rhan gyntaf y wers i orffen, rhag ofn i rai plant ddrysu.
- Roedd lefel sŵn y dosbarth yn dechrau codi, da iawn am dawelu'r plant ond efallai bod angen gwneud hyn ychydig o weithiau os ydy'r sŵn yn dal i godi.
- Da iawn am dacluso cyn ddechrau ail rhan y wers.

(?) Efallai gallet ti wedi arddangos ambell esiampl o waith da? (AaGD).

- Unwaith mae'r cloc cyffri lawr wedi gorffen, dyna ni - unrhyw un sydd ddim wedi gorffen, rhaid cario ymlaen yn dawel ac annibynnol!

Atodiad 13: Adborth o’r drydedd wers.



14.11.19

Erthygl Papur Newydd

- Cyfarwyddiadau clir ar y bwrdd gwyn.
- Rwyt yn siarad mewn llais clir ac yn mynnu sylw'r plant heb unrhyw drafferth.
- Defnydd da o AaGD - ffyn lolipop.
- Da iawn am wneud i Hari i deimlo'n well ar ôl cael ateb yn anghywir - 'paid becso!'
- Efallai gallet wedi mynd 'off tangeant' ychydig a gweld pa rifolion eraill roedd y plant yn gwybod (e.e - 15fed, 19eg.)
- Da iawn am esbonio geiriau cymhleth.
- Defnydd da o swyddi (e.e - glud).
- Esboniad clir o'r dasg.
- "Ydy pawb yn deall?" - ydyn!
- Da iawn am esbonio'r dasg ymestynnol i'r dosbarth cyfan.
- Rheolaeth da o lefel sŵn y dosbarth.
- Roedd pawb ar y dasg trwy gydol y wers!
- Pawb yn deall beth roeddent fod i wneud.
- Da iawn am deithio o gwmpas y dosbarth.
- Da iawn am deithio o gwmpas y dosbarth.

Nodyn: (see note)

trychineb Aberfan. Paid a phoeni am fynd
ar drywydd gwahanol bob hyn a hyn -
Mae'r plant yn dwlu trafod!

- Da iawn am gynnwys diweddglo - beth ydych chi wedi dysgu heddiw?

(?) Efallai gallwn ni chwilio am syniadau eraill am ddiweddglo?

- Defnydd~~io~~ effeithiol o'r Dojo's a'r doc cyfri lawr.

(?) Yn mynd mewn i wythnos nesaf, beth os edrychwn ni ar ffordd o gael mwy o TGCh i mewn i'r wers?

Atodiad 14: cynllun gwers.

| Amser | **Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol** (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol) | **Tasgau Disgyblion** (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref) | **Adnoddau** (Gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch) |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod agoriadol** (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) | I ailadrodd ar y wers ddoe o'r ffeithiau allweddol mae angen eu cynnwys.<br><br>Gofyn cwestiynau (beth, pam, pwy, pryd, ble).<br><br>Atgoffa'r dosbarth am atalnodi. | Ateb y cwestiynau fel dosbarth i adeiladu templed (cynnwys yr eirfa bwysig). | Ffyn lolipop.<br><br>(IaD)-Gwneud yn siŵr bod y bagiau/cotiau ddim yn y dosbarth. |
| **Addysgu a Dysgu Craidd** | Gweithio trwy bob paragraff a sicrhau bod y wybodaeth bwysig wedi cael ei chynnwys.<br><br>Yn gallu mynd ati i ysgrifennu wrth ddilyn strwythur y templed. | Ysgrifennu ar y templed.<br><br>Ysgrifennu ar dempled gwahanol (mwy o linellau).<br><br>Creu templed yn y llyfr- i annog fwy o ysgrifen/paragraffau.<br><br>Creu llun i fynd gyda'r erthygl ar y diwedd (e.e. Pudsey- Plant Mewn Angen). | Templed erthygl papur newydd (ar gyfer strwythur).<br><br>Mat geiriau.<br><br>Glud.<br><br>Geiriaduron.<br><br>Byrddau gwyn. |
| | | | . |
| **Sesiwn Gloi** | Sicrhau bod y disgyblion wedi cynnwys y pethau pwysig (e.e. teitl, paragraffau, llun, dyddiad, diweddglo a.y.y.b). | Disgyblion i gywiro eu gwaith a sicrhau bod nhw wedi dilyn y rhestr wirio.<br><br>Tacluso. | |

Atodiad 15: adnoddau Cymraeg.



Atodiad 16: rhestr wirio.



Atodiad 17: lluniau ar gyfer creu teitlau effeithiol (gwers 2).



Atodiad 18: tasgau estynedig (gwers 2)



Atodiad 19: mat geiriau.



Erthygl Papur Newydd

Beth?

Pwy?

| | | | |
|---|---|---|---|
| aeth | cwblhau | ers | pan |
| oedd | teithio | i gloi | ers |
| yn | daeth o hyd | yn ôl | cyn gynted â |
| ceisio | eisiau | i ddechrau | ar ôl |
| methu | diweddar | nawr | cyn |
| esboniodd | yn gyntaf | yn olaf | dilyn |
| adroddodd | yn ail | oherwydd | ystod |
| dyfyniad | wedyn | pryd | ar y llaw arall |

Pam?

Ble?

Pryd?

Atodiad 20: adnodd Cymraeg.



# Newyddion Pontybrenin

15fed o Dachwedd 2019

£1.00

## Teitl

### Is-deitl

Llun

Capsiwn

**Paragraff agoriadol (pwy, beth, ble, pam, pryd).**

Pam fod Plant Mewn Angen mor bwysig?

**Cofiwch ddefnyddio ansoddeiriau**

Allwch chi feddwl am ffordd arall o godi arian?

*"Dyfyniad cyffrous"*

**Diweddglo**

*Stori gan: eich enw chi*

Atodiad 21: Gloywi iaith.



Atodiad 22: Gloywi Iaith.



# TASG

## Enwau

**Tasg 1**

Rhowch 'eg' neu 'eb' wrth ochr pob un o'r enwau hyn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cadair eb | llais eg | papur eg | drama eb | calon eb |
| myfyriwr eg | patrwm eg | teulu eg | car eg | teledu eg |
| ysgrifenyddes eb | coleg eg | rhaff eb | dinas eb | [illegible] eb |

Nawr, rhowch y gair am 3 o flaen pob un. Treiglwch os oes angen.

**Tasg 2**

Rhowch yr enwau isod yn y golofn gywir.

angladd, coes, gwasanaeth, gweithgaredd, plentyn, ystafell, cusan, afal, penderfyniad, pennill, llinell, rhestr, trafnidiaeth.

| Enw gwrywaidd | Enw benywaidd | Enw gwrywaidd/benywaidd |
|---|---|---|
| gwasanaeth<br>gweithgaredd<br>plentyn<br>afal<br>penderfyniad<br>pennill | coes<br>ystafell<br>llinell<br>trafnidiaeth<br>rhestr | angladd (eb)<br>cusan (eb) |

Nawr, rhowch 'y' neu 'yr' o flaen pob un.

**Tasg 3**

Mae gan y geiriau hyn ddau luosog. Beth ydyn nhw? Wedyn ysgrifennwch frawddegau (12 brawddeg i gyd) i ddangos yn glir eich bod yn deall yr ystyron.

* cyngor * cais * pryd * nodyn * gwaith * llwyth

– cynghorion ceisiadau prydiau nodiadau [illegible] llwythau

– cynghorau ceisiau prydau [illegible] [illegible] [illegible]

**Tasg 4**

Cywirwch

1. Roedd hi'n awyddus iawn i ddatrys y dirgelwch.
2. Derbyniodd yr adran adnoddau dynol llawer o geisiau am y swydd.
3. Mae'r restr anrhegion priodas ar y we.
4. Bydd y merched yn cwyno os bydda i'n hwyr.
5. Faint o'r bechgyn fydd yn mynd i'r goleg?
6. Teithiodd y llywydd i'r gynhadledd ar y trên.
7. Doedd gwydwaith y coleg ddim yn gweithio'n iawn.
8. Rwyt ti'n hwyr. Beth yw'r esgus?
9. Doedd ei henw hi ddim ar y daflen.
10. Mae e wedi ennill y gystadleuaeth.
11. Tair ceffyl fydd yn neidio yn y rownd derfynol.
12. Mae pymtheg dynion mewn tîm rygbi.

Ar ôl rhif - enw unigol

Byth treiglo ar ôl 'doedd'

Atodiad 23: Gloywi iaith.



## Gwallau 3.14
## Arddodiaid ar ôl berfau

Ym mhob un o'r brawddegau yn yr uned hon, mae dau bosibilrwydd: bydd yr arddodiad sy'n dilyn y ferf yn gywir mewn un ohonynt ac yn anghywir yn y llall. Weithiau, mae'n bosibl na fydd angen arddodiad o gwbl.

**Tasg i'r dosbarth**
[Cymraeg Da: Adran 4]
Darllenwch y brawddegau fesul dwy gyda phartner a phenderfynu pa un sy'n gywir. Rhoddir pum munud ar ddiwedd y sesiwn i bawb gymharu eu hatebion.

1. a Nododd yr adroddiad fod mwy o bobl yn gwrando i'r radio y dyddiau hyn na deng mlynedd yn ôl.
   b Nododd yr adroddiad fod mwy o bobl yn gwrando ar y radio y dyddiau hyn na deng mlynedd yn ôl.

2. a Bob Nadolig, mae hi'n ysgrifennu i'w modryb i ddiolch iddi am ei hanrheg.
   b Bob Nadolig, mae hi'n ysgrifennu at ei modryb i ddiolch iddi am ei hanrheg.

3. a Bydd ei modryb yn anfon anrheg ati bob Nadolig.
   b Bydd ei modryb yn anfon anrheg iddi bob Nadolig.

4. a Aethant i mewn i'r siop i guddio o'r glaw.
   b Aethant i mewn i'r siop i guddio rhag y glaw.

5. a Mae'n bwysig dweud y gwir i bawb ar ôl popeth a ddigwyddodd.
   b Mae'n bwysig dweud y gwir wrth bawb ar ôl popeth a ddigwyddodd.

6. a Penderfynaist ti beidio â mynd i weld y ddrama, wedi'r cyfan.
   b Penderfynaist ti i beidio â mynd i weld y ddrama, wedi'r cyfan.

7. a Gofynnais wrtho am gael benthyg ugain punt.
   b Gofynnais iddo am gael benthyg ugain punt.

8. a Yr oedd yn hyfryd clywed oddi wrth ein perthnasau yn yr Eidal.
   b Yr oedd yn hyfryd clywed o'n perthnasau yn yr Eidal.

9. a Aeth y cadeirydd i siarad â phawb cyn y cyfarfod.
   b Aeth y cadeirydd i siarad i bawb cyn y cyfarfod.

10. a Bydd y trên nesaf yn cyrraedd yng ngorsaf Abertawe am 18.35.
    b Bydd y trên nesaf yn cyrraedd gorsaf Abertawe am 18.35.

11. a Cofiwch fi at eich rhieni pan welwch chi nhw nesaf.
    b Cofiwch fi i'ch rhieni pan welwch chi nhw nesaf.

12. a Dechreuodd y côr ganu am saith o'r gloch heno.
    b Dechreuodd y côr i ganu am saith o'r gloch heno.

13. a Ymweliwn rai o ogleddiaeth'r Eidal y flwyddyn nesaf.
    b Ymweliwn â rhai o ogoniannau'r Eidal y flwyddyn nesaf.

14. a Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod nesaf.
    b Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn y cyfarfod nesaf.

15. a Yr oedd y ddau fachgen yn ymladd gyda'i gilydd.
    b Yr oedd y ddau fachgen yn ymladd â'i gilydd.

Atodiad 24: TSI



TASG 1: CYWIRO (Mae'r dasg hon yn werth 20% o'r marciau)

Mae **2 wall ym mhob brawddeg** yn y darn isod, a chyfanswm o 22 o wallau. Cywirwch nhw, gyda chymorth Cysill. **Nid** oes angen i chi newid cywair neu arddull y darn o gwbl, dim ond cywiro'r gwallau iaith sydd ynddo. Rhowch eich cywiriadau mewn **print trwm.**

DARN I'W GYWIRO

Mae llawer o fyfyrwyr yn argyhoeddi nid yw'n ofynnol paratoi ar gyfer cyfweliad. Yn anfodus mae'n yn gwneud camgymeriad mawr pan na fyddant wedi gwneud eu gwaith ymchwil. Dylent ddarganfod gwybodaeth am eu darpar cyflogwyr.

Yn ystod y cyfweliaid bydd y panel cyfweld yn siŵr o ofyn cwestiwn er mwyn cael gwybod faint mae'r ymgeisydd yn ei wybod am y cwmni. Bydd y cwmni hefyd am weld bod yr ymgeisydd yn deall sut mae'n weithredu.

Os ni fydd yr ymgeisydd yn medru ateb y cwestiwn hynny mae'n annhebygol y bydd yn cael ei cyflogi. Bydd hyn yn wir hyd yn oed os bydd e gan gymwysterau gwych. Felly, dylai pob myfyriwr paratoi'n drylwyr cyn wynebu panel cyfweld.

Dylai wneud yn siŵr ei fod yn dod i wybod cymaint â phosib am y gweithle newydd a gwybod pwy i'w pwy yn y cwmni. Mae hon yn gyfle oll bwysig. Peidiwch wneud traed moch o bethau, da ti!

Atodiad 25: TSI

